# Y PWYLLGOR ADDYSG A HYFFORDDIANT AR OL 16 OED

## ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

### Cyflwyniad

Gwneir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9 sy'n mynnu fod pob pwyllgor pwnc yn adrodd i'r Cynulliad o dro i dro ar hynt ei raglen waith.

Mae'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Caiff ei gadeirio gan Cynog Dafis. Yr aelodau eraill yw Tom Middlehurst, Christine Chapman, Alun Pugh, Elin Jones, Jonathan Morgan, Jocelyn Davies, Christine Humphreys a John Griffiths. Rhwng Mehefin 1999 a Mehefin 2000, fe wnaeth y pwyllgor gwrdd 22 gwaith yng Nghaerdydd, fe ymwelodd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac fe gynhaliwyd pedwar cyfarfod ar y celfyddydau a diwylliant ledled Cymru.

### *Dull o weithio*

Mae'r pwyllgor wedi datblygu dull agored a chynhwysol o weithio. Cynhaliwyd ei holl bwyllgorau yn gyhoeddus ac mae nifer fawr o gyrff wedi ymddangos o flaen y pwyllgor er mwyn cyfrannu at ei adolygiadau o bolisi.

### *Cylch gwaith y pwyllgor*

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu gwaith Ysgrifennydd y Cynulliad dros addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed, Tom Middlehurst. Mae meysydd diddordeb y Pwyllgor yn cynnwys addysg a hyfforddiant ar ôl yr oedran gadael addysg orfodol o 16, gan gynnwys addysg uwch a hyfforddiant yn y gweithle, polisi cyflogaeth gan gynnwys arolygu'r Fargen Newydd, y celfyddydau a diwylliant, chwaraeon a hamdden, yr iaith Gymraeg a'r gwasanaeth ieuenctid. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio naw o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

### *Blaenoriaethau*

O fewn ei gyfrifoldebau eang, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ar set o flaenoriaethau pendant a nodir yn ei flaenraglen waith strategol. Mae'r rhaglen yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng blaenoriaethau'r pwyllgor a'r targedau a amlinellir yn strategaeth "Gwell Cymru" y Cynulliad ac, yn arbennig, y tair prif thema o ddatblygu cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal.

Fel y cytunwyd ym mis Mawrth eleni, bydd y Pwyllgor yn chwarae rhan allweddol wrth ymdrin â nifer o faterion a nodir yn "Gwell Cymru" fel materion y dylai'r Cynulliad weithredu arnynt yn

fuan (DS: mae "Gwell Cymru" bellach wedi ei ddiwygio a bydd fersiwn nesaf y rhaglen waith, fydd yn cael ei llunio ym mis Medi, yn adlewyrchu targedau newydd "Gwell Cymru"). Y materion hyn yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth, a sicrhau eu bod ar gael i bawb
- Sicrhau fod cyrff diwylliannol yn cymryd camau gweithredol i gynnwys pobl sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol
- Sicrhau fod ein gwasanaethau, gwybodaeth a chyfleusterau diwylliannol cyhoeddus ar gael i bawb
- Denu 36,000 yn fwy o fyfyrwyr i fynychu addysg bellach ac addysg uwch gyda chymorth benthyciadau ar gyfer astudio'n rhan amser a darpariaeth sylweddol newydd ar gyfer cronfeydd Mynediad
- Bod Gyrfaoedd Cymru yn dechrau ar ei waith ac yn wasanaeth i bob oed a fydd yn gallu ymdrin â 80,000 o bobl y flwyddyn ar ei linell gymorth
- Addysg bellach a hyfforddiant yn cael ei reoli gan y Cyngor Addysg a Hyfforddiant newydd
- Bydd yr holl brif gyrff a noddir wedi eu harolygu erbyn 2005
- Sicrhau cynnydd o 3% yn nifer y bobl sy'n ymweld ag amgueddfeydd, orielau celf, y Llyfrgell Genedlaethol, theatrau a safleoedd treftadaeth drwy gefnogi gwaith y Cyngor Celfyddydau ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Sicrhau cynnydd o 4% yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon drwy gefnogi gwaith y Cyngor Chwaraeon

***Datblygu polisi***

Yn gynnar ar ôl cael ei ffurfio, penderfynodd y Pwyllgor dreulio canran fawr o'i amser yn datblygu polisi ar faterion penodol . Hyd yn hyn y mae wedi cynnal a chwblhau adolygiad o'r argymhellion a gynhwyswyd yn y Cynllun Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant ac wedi cynnal arolwg bychan o weithgareddau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ar hyn o bryd mae'n cynnal arolwg o'r polisi ar y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru ac yn yr hydref bydd yn dechrau ar arolwg eang ei ystod o Addysg Uwch yng Nghymru.

### *Y Grp Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant (ETAG)*

Cylch gwaith yr arolwg hwn oedd "gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu’r cynigion ar gyfer darparu a gweinyddu addysg a hyfforddiant yng Nghymru a wnaethpwyd gan y Grp Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant (ETAG) ac a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1999".

Penderfynodd y Pwyllgor y byddai’n rhaid iddo glywed barn ar argymhellion ETAG ei hun er mwyn iddo allu llunio casgliadau. Clywodd gyflwyniadau llafar gan aelodau ETAG ei hun a chan 20 o gyrff eraill oedd yn cynrychioli amrywiaeth o wahanol gyrff oedd â diddordeb. Cyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig gan 34 o gyrff ac unigolion eraill. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod ar y cyd â’r Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion a Dysgu Cynnar i drafod materion a oedd o ddiddordeb i’r ddau bwyllgor, bu mewn cysylltiad clòs â’r Pwyllgor Datblygu Economaidd, ac yr oedd Cadeirydd y pwyllgor hwnnw’n bresennol mewn dau bwyllgor.

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 1999 a chafodd ei gymeradwyo mewn cyfarfod llawn ym mis Chwefor eleni. Gwnaed nifer o argymhellion gan y Pwyllgor; yn fwyaf arbennig, cymeradwyodd gynigion ETAG i sefydlu Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant, ac i sefydlu gwasanaeth gyrfaoedd i bob oedran o’r enw "Gyrfaoedd Cymru", i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar ddysgu a chyfleoedd gyrfaol. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd, fodd bynnag, y dylid gwneud rhai newidadau ac ychwanegiadau allweddol i’r Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant ac argymhellwyd y dylai’r Pwyllgor Addysg cyn 16 oed a’r Pwyllgor Datblygu Economaidd wneud gwaith pellach ar feysydd sy’n rhan o’u cylch gwaith hwy.

### *Y Celfyddydau a Diwylliant*

Dyma’r cylch gwaith ar gyfer yr arolwg, fel y’i lluniwyd gan weithgor o dri aelod o’r Pwyllgor:

"Cynnal astudiaeth o’r blaenoriaethau cyfredol ar gyfer ariannu’r celfyddydau yng Nghymru o goffrau cyhoeddus: ystyried amcanion y Cynulliad mewn perthynas â’r celfyddydau ac i ba raddau y mae polisïau cyfredol yn cyflawni’r amcanion hyn: ystyried i ba raddau y mae gwariant ar y celfyddydau yn llwyfan i sicrhau arian o sectorau preifat ac arian Ewropeaidd. Bydd yr astudiaeth, a fydd yn canolbwyntio ar y celfyddydau yn hytrach na’r dreftadaeth adeilog, yn rhoi sylw arbennig i’r themâu a ganlyn:

- atgyfnerthu hunaniaeth genedlaethol a statws rhyngwladol Cymru;
- hybu cydlyniant cymdeithasol a dinasyddiaeth ymroddgar drwy sicrhau bod mwy o bobl yn cael cyfle i fwynhau’r celfyddydau yng nghymunedau Cymru;
- gwella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau;

- cefnogi addysg a hybu talent celfyddydol ledled Cymru;
- pwysigrwydd y diwydiannau creadigol o ran cyflogaeth yng Nghymru;
- datblygu rhagoriaeth.

Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y cymorth y gall y sector cyhoeddus ei roi i'r celfyddydau drwy gyrff a noddir, yn enwedig Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd yn ystyried dulliau ariannu ac yn ystyried swyddogaethau awdurdodau lleol, sefydliadau Addysg Uwch a chyrff celfyddydol, gan gynnwys y darlledwyr. Bydd y pwyllgor yn derbyn tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan amrywiaeth o gyrff a sefydliadau sy'n rhan o'r sbectrwm celfyddydol".

Argymhellodd y gweithgor hefyd fod yr arolwg yn haeddu ymgynghorydd arbenigol. I'r perwyl hwn, penodwyd Ceri Sherlock ym mis Ionawr.

Yn ystod yr arolwg, mae'r Pwyllgor wedi ceisio ymestyn i bob rhan o Gymru. Mae wedi cyfarfod naw o weithiau yng Nghaerdydd ac wedi cynnal cyfarfod ym mhob un o'r pedwar rhanbarth. Derbyniwyd sylwadau llafar gan 56 o gyrff ac unigolion, yn cynrychioli'r amrywiaeth o ffurfiau celf. Derbyniwyd llawer o ymatebion ysgrifenedig yn ogystal.

Bellach, mae'r Pwyllgor wedi cwblhau'r broses o glywed tystiolaeth ac yn ystod ei gyfarfod nesaf ar 28 Mehefin bydd yn pwyso a mesur yr ymatebion. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Medi.

***Llyfrgell Genedlaethol Cymru***

Fel rhan o'i gylch gwaith i oruchwylio gwaith Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r gwasanaethau llyfrgell ac archif yn gyffredinol, cynhaliwyd arolwg bychan o gwmpas gwaith a gweithgareddau Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 1999.

Derbyniodd y Pwyllgor bapur safbwynt cynhwysfawr gan swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol cyn ymweld â'r Llyfrgell ar 18 Tachwedd. Yn ystod ei ymweliad â'r Llyfrgell derbyniodd gyflwyniadau llawn gwybodaeth gan swyddogion y Llyfrgell, gan aelodau o'r Llys a'r Cyngor, gan y Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth (Cymru) a chan Gonsortiwm Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cymru. Yn ychwnaegol at hyn, aeth y pwyllgor ati i gael barn am gysylltiadau a phartneriaethau'r Llyfrgell â sectorau a sefydliadau eraill yng Nghymru. Yn ôl yr ymatebion, yr oedd cefnogaeth gref ac eang i weithgareddau'r Llyfrgell Genedlaethol, ond cafwyd llawer o awgrymiadau adeiladol ar gyfer ei gwella, yn ogystal. Trosglwyddwyd y rhain i Lyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol mewn llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor.

***Addysg Uwch***

Yr arolwg o Addysg Uwch yng Nghymru fydd prif waith y Pwyllgor yn hydref eleni. Dechreuwyd ar y broses gan weithgor o aelodau'r pwyllgor ym mis Mawrth pan aeth ati i lunio cylch gwaith yr arolwg (gweler isod). Mae'r Pwyllgorau wedi penderfynu bod yr arolwg yn teilyngu penodiad ymgynghorydd arbenigol. Mae'r swydd bellach wedi'i hysbysebu ac mae'n debyg y caiff yr ymgynghorydd ei benodi ym mis Gorffennaf.

Dyma gylch gwaith yr arolwg:

"Nodi gweledigaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a sut y dylai wasanaethu anghenion y wlad, a datblygu strategaeth tymor hir ar gyfer ennyn y cyfraniad gorau oddi wrth y sector. Dylai'r astudiaeth roi ystyriaeth i'r dimensiwn Cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol ehangach sy'n berthnasol yma, yn ogystal ag i'r perwylion dysgu ac ymchwil a'r perwylion diwylliannol, galwedigaethol ac economaidd o fewn y sector. Dylai'r astudiaeth fynd i'r afael yn arbennig â'r canlynol:

- ystod y disgyblaethau a'r gweithgareddau o fewn addysg uwch;
- y portffolio o ymchwil a wneir o fewn y sector, a swm a phatrwm yr arian ymchwil a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cynghorau Ymchwil a ffynonellau eraill;
- cenhadaeth economaidd sefydliadau addysg uwch mewn perthynas â chreu cyfoeth a gwaith ac ecsbloetio gwybodaeth yn fasnachol;
- y cyfleoedd ar gyfer cydweithredu ac integreiddio o fewn y sector addysg uwch a hefyd bartneriaeth rhwng sefydliadau Addysg Uwch ac ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac eraill er mwyn codi safonau dysgu ac ymchwil fel ei gilydd, yn gyson;
- cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr a'r effaith y mae'n ei chael ar niferoedd a phatrwm recriwtio;
- pwerau statudol y Cynulliad ac unrhyw gyfyngiadau y maent yn eu gosod ar ddatblygiad strategol addysg uwch yng Nghymru.

Dylai'r astudiaeth bolisi ddisgrifio'r cyfleoedd ar gyfer datblygu strategol, gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu a gosod targedau cyrhaeddiad, gan roi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd ac i gyfyngiadau ar adnoddau.

***Yr Iaith Gymraeg***

Daeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg gerbron y Pwyllgor ym mis Tachwedd 1999, gan gyflwyno papur cynhwysfawr yn nodi ei weledigaeth ar gyfer dyfodol yr iaith. Ym mis Chwefror, cymeradwyodd y Pwyllgor bapur y Bwrdd Iaith yn ffurfiol (â mwyafrif o 7-1), gan ei ddisgrifio fel cyfraniad pwysig i'r dasg o lunio strategaeth ar gyfer parhau i adfywio'r iaith Gymraeg a chreu

Cymru ddwyieithog.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i Gynllun Iaith y Cynulliad. Enwebwyd tri aelod o'r Pwyllgor i ymuno â gweithgor o swyddogion er mwyn cynorthwyo i lunio'r Cynllun.

**Y Fargen Newydd**

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad bob chwe mis gan Ysgrifennydd y Cynulliad ar hynt a helynt y Fargen Newydd. Cyfarfu â chynrychiolwyr Tasglu'r Fargen Newydd yn ddiweddar er mwyn eu holi.

**Gofynion Eraill y Rheolau Sefydlog**

***Goruchwylio Cyrff Cyhoeddus (RhS 9.7(iii))***

Nodir gwaith y Pwyllgor mewn perthynas â Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg uchod. Cyfarfu'r Pwyllgor â chynrychiolwyr Cynghorau Cyllido Addysg Bellach ac Uwch Cymru hefyd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â chynrychiolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng nghyd-destun ei arolwg y celfyddydau a diwylliant.

Dadansoddwyd cynlluniau corfforaethol ac adroddiadau blynyddol pob un o'r cyrff cyhoeddus yn drylwyr gan aelod unigol o'r Pwyllgor, a mynegwyd y darganfyddiadau i'r cyrff perthnasol.

***Y Gyllideb (RhS 9.8(ii))***

Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb ddrafft y Cynulliad ar gyfer 2000-01. Roedd yn unfryd ei farn bod angen anfon neges glir at yr Ysgrifennydd Cyllid y dylid diogelu'r arian a ddarparwyd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant, a Diwylliant a Hamdden. Clustnododd nifer o feysydd ble'r oedd angen gwario mwy, sef:

Y Celfyddydau yng Nghymru

Yr Iaith Gymraeg

Addysg Bellach ac Uwch

Cronfeydd Mynediad Myfyrwyr

Cymerwyd safbwyntiau'r Pwyllgor i ystyriaeth wrth lunio'r gyllideb derfynol. Derbyniodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg £200,000 yn ychwanegol o'i gymharu â'r ffigwr sylfaenol a nodwyd yn wreiddiol; derbyniodd Cyngor Celfyddydau Cymru £100,000 yn ychwanegol; cynyddwyd

cronfeydd mynediad myfyrwyr dros un rhan o dair; a chynyddodd lefel yr arian ar gyfer Cynghorau Cyllido Addysg Bellach ac Uwch Cymru yn fwy na lefel chwyddiant.

***Penodiadau Cyhoeddus (RhS 9.8(iv))***

Enwebwyd Cynog Dafis a John Griffiths fel cynrychiolwyr y Pwyllgor ar y Panel Penodiadau Cyhoeddus.

***Gofynion eraill y Rheolau Sefydlog***

Nid yw'r Pwyllgor hyd yma wedi cynghori ynghylch deddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru, ac ni fu gofyn iddo ychwaith arfer ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion).

**Blaenraglenni Gwaith**

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio'i ymdrechion ar feysydd allweddol ble y datblygir polisi. Hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi gweithredu mewn ffordd gynhwysol gan ymgynghori'n eang, yn arbennig yn ei waith ar arolygon polisi Grp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant a'r celfyddydau a diwylliant, ac ymddengys fod nifer o'r sefydliadau a'r unigolion a gyfrannodd at y broses wedi ymateb i hynny ag ewyllys da. Byddwn yn parhau â'r agwedd agored a thryloyw hon yn yr arolwg Addysg Uwch a drefnwyd i gychwyn ym mis Hydref. Gwahoddir cynrychiolwyr allweddol ym maes Addysg Uwch yng Nghymru i ddod gerbron y Pwyllgor bryd hynny. Yr arolwg hwn fydd prif ganolbwynt gwaith y Pwyllgor hyd fis Ebrill 2001. Ym mis Medi, bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar feysydd gwaith ar gyfer arolygon polisi ar ôl Ebrill 2001.

Yn ystod y flwyddyn waith nesaf, bydd y Pwyllgor hefyd yn cwrdd i edrych yn fanwl ar bob un o'r cyrff cyhoeddus sy'n rhan o'i gylch gwaith. Bydd yn parhau i fonitro hynt y Fargen Newydd yng Nghymru; y bwriad hefyd yw iddo gwrdd â'r Tasglu Sgiliau; ac fel gwaith dilynol i'r arolwg o gynigion y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, bydd yn cwrdd â'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol i drafod bwriadau'r Cyngor ar gyfer rhoi'r Cynllun ar waith.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2000**